

# Materion Mesuryddion – Canllaw i’n polisi gosod

Hafren Dyfrdwy
Ionawr 2021

RHAGOROL O'R TAP
WONDERFUL ON TAP

HAFREN DYFRDWY
severn dee

## Canllaw i gwsmeriaid ar gyfer ein polisi gosod mesuryddion dŵr

Rydym wedi creu’r canllaw hwn i ddarparu cymorth i gwsmeriaid sydd â chwestiynau am osod mesuryddion dŵr newydd.

### Pam rydym yn gosod mesuryddion

Rydym yn darparu ac yn gosod mesuryddion dŵr yn ddi-dâl (bron bob amser) i’ch helpu i arbed dŵr ac i dderbyn biliau cywirach.

### Buddion o gael mesurydd dŵr

Mae mesurydd dŵr yn mesur faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio, ac felly fe fyddwch ond yn talu am yr hyn rydych yn ei ddefnyddio. Gall hefyd helpu i arbed dŵr - mae llawer o gwsmeriaid yn canfod bod eu biliau’n rhatach ar ôl newid i fesurydd dŵr gan eu bod yn gwneud ymdrech ymwybodol i ddefnyddio llai o ddŵr unwaith y bydd yna fesurydd wedi’i osod, gan olygu ei fod o fudd i’ch poced ac i’r amgylchedd, fel ei gilydd. Mae defnyddio llai o ddŵr yn golygu bod angen twymo llai o ddŵr, ac felly fe all hefyd arbed ar eich biliau ynni a lleihau’r ôl troed carbon.

Gallwch dreialu mesurydd dŵr am ddwy flynedd, ac os teimlwch nad yw’n iawn i chi yn ystod y cyfnod hwnnw, fe allwch newid yn ôl i gael biliau dŵr heb fesurydd. Fodd bynnag, ni eir â’ch mesurydd oddi ar yr eiddo.

Os hoffech weld a all cael mesurydd fod o fudd ichi ac arbed arian ichi, fe allwch wirio cyfrifiannell Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr .

### Dewis newid i fesurydd dŵr

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

Gallwch ddewis newid i fesurydd dŵr unrhyw adeg. Os ydych yn denant ac mae'ch tenantiaeth yn hwy na 6 mis, nid oes arnoch angen caniatâd gan eich landlord i gael gosod mesurydd dŵr, ond rydym yn awgrymu eich bod yn ei hysbysu o ran cwrteisi.

Os oes gennych brydles dymor byr o lai na 6 mis, mae'n rhaid ichi gael caniatâd ysgrifenedig gan eich landlord.

I wneud cais i gael gosod mesurydd, fe allwch:

- Cysylltwch â'n tîm drwy unrhyw un o'n cyfryngau cysylltu yma: https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/
- Cwblhewch y ffurflen gais am fesurydd dŵr yn https://www.hdcymru.co.uk/my-account/my-water-meter/apply-for-a-water-meter/
- Neu fe allwch ein ffonio ar 0345 7500 500.

## Weithiau, ni allwn osod mesurydd dŵr

Gosodwn fesurydd dŵr yn ddi-dâl os yw'n rhesymol ymarferol. Diffiniwn "yn rhesymol ymarferol" fel nid yn gorfod symud eitemau mawrion megis offer cartref neu fod yna unrhyw broblemau eraill o ran cael mynediad.

Fodd bynnag, mae yna amgylchiadau lle na allwn osod mesurydd.

Ni wnawn symud tap cau dŵr i osod mesurydd.

Os yw'r blwch terfyn yng nghanol ffordd brysur, y mae'r cyngor neu'r awdurdod lleol yn methu â'i chau, ni fyddwn yn gallu gosod y mesurydd.

**Pan na allwn osod mesurydd allanol**
Ni fyddwn yn gallu gosod mesurydd allanol os:

- Ydych yn derbyn cyflenwad ar y cyd â rhywun arall.
- Oes yna ollyngiad dŵr yn eich cyflenwad.
- Oes yna beryglon gerllaw, megis ceblau neu gyfleustodau eraill, gan ei gwneud hi'n anniogel i'w osod.
- Oes yna rwystr yn y ffordd, megis coeden neu bostyn lamp.
- Na fydd yr awdurdod lleol yn caniatáu unrhyw waith stryd ar briffordd sydd newydd gael wyneb newydd. Gelwir hyn yn Adran 58. Os yw hyn ar waith, nid ydym yn gallu tyrchu'r tarmac.

**Pan na allwn osod mesurydd mewnol**
Ni fyddwn yn gallu gosod mesurydd mewnol os:

- Nad yw'r tap cau dŵr mewnol yn gweithio.
- Nad oes gennych dap cau dŵr mewnol.
- Yw'r pibwaith y tu mewn i'ch eiddo yn anhygyrch, dan rwystr neu mewn cyflwr gwael.

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

- Os oes gan eich eiddo fwy na dau fan lle mae'r cyflenwad dŵr yn dod i mewn i'r adeilad.
- Ydych yn byw mewn fflat ac rydych yn defnyddio cyfleusterau cymunedol neu gyflenwad dŵr poeth ar y cyd.

## Beth sy'n digwydd os na allwn osod mesurydd

Petaem yn canfod nad ydym yn gallu gosod y mesurydd pan fyddwn yn eich eiddo, yna fe allech fod yn gymwys ar gyfer un o'n tariffau taliad wedi'i asesu. Seilir y rhain ar y math o dŷ rydych yn byw ynddo, er enghraifft, fflat neu eiddo teras / eiddo un talcen / eiddo sengl.

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, lle nad oes yna blant, cymar nac unrhyw unigolyn arall yn byw yn yr eiddo, efallai y bydd gennych hawl i'n Tariff Taliad a Asesir i Feddiannydd Sengl.

I fod yn gymwys ar gyfer unrhyw un o'r tariffau hyn, mae'n rhaid ichi fod wedi cael mesurydd wedi'i osod yn aflwyddiannus.

I gael mwy o wybodaeth, ffoniwch ni ar 03457 500500, os gwelwch yn dda.

## Ymgeisio am fesurydd dŵr

Os ydych wedi cyflwyno'ch cais ar y ffôn, fe allwch hefyd drefnu apwyntiad yn y fan a'r lle gyda'r cynghorydd.

Os ydych yn gwneud cais ar-lein, fe allwch ddewis amser sy'n addas i chi ar gyfer pryd y gwnawn eich galw yn ôl er mwyn trefnu apwyntiad.

Cynllunnir y cais i gyfrifo p'un a fyddech yn arbed arian o osod mesurydd dŵr.

Ni wnawn byth gynghori'n fwriadol eich bod yn cael mesurydd dŵr wedi'i osod oni bai ei fod yn arbed arian ichi.

Unwaith y bydd y mesurydd dŵr wedi'i osod gan ein partneriaid contract mesuryddion, fe roddir pecyn "Croeso i Fesuryddion / Welcome to Metering" ichi fydd yn egluro'r cylch bilio a buddion y mesurydd dŵr, yn ogystal â chynghorion ynglŷn ag arbed dŵr.

## Byddwn yn darllen eich mesurydd dŵr yn rheolaidd

Ein nod yw darllen eich mesurydd dŵr bob chwe mis. Os nad ydym yn gallu darllen y mesurydd, fe gyfrifwn ddarlleniad wedi'i amcangyfrif yn seiliedig ar ddefnydd blaenorol.

Os yw'ch mesurydd yn allanol, fe wnawn ddarllen hwn yn weledol yn eich blwch terfyn.

Os yw'ch mesurydd y tu mewn i'ch eiddo, fe gymerwn ddarlleniad naill ai trwy ddarlleniad radio gyrru heibio neu efallai bod gennych bad cyffwrdd y tu allan i'ch eiddo fel nad oes yn rhaid inni darfu arnoch pan fyddwn yn darllen y mesurydd.

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

Os, am unrhyw reswm, nad yw'r un o'r opsiynau hyn yn bosibl, fe fydd ein darllenwyr mesuryddion yn cnocio ar eich drws ac yn gwirio a yw'n gyfleus darllen eich mesurydd.

Os nad ydych yn yr eiddo, fe adawn gerdyn galw yn eich eiddo i adael ichi wybod eich bod wedi ymweld.

Os ydych yn dymuno, fe allwch roi darlleniad y mesurydd ar-lein yn amlach na hynny i helpu i gadw cofnod o'ch defnydd dŵr.

## Sut y codir tâl arnoch

Codir tâl arnoch am eich dŵr a'ch gwasanaethau carthffosiaeth yn seiliedig ar faint o ddŵr sy'n mynd drwy'r mesurydd.

Byddwch hefyd yn talu taliadau sefydlog (ar gyfer bilio a darllen y mesurydd), a thâl am ddraenio dŵr wyneb.

Byddwch yn derbyn dau fil bob blwyddyn (un bob chwe mis), ac fe wnawn bob amser geisio cael un o'r rhain i fod wedi'i seilio ar ddarlleniad gwirioneddol o'r mesurydd.

## Byddwn ond yn argymell eich bod yn newid i fesurydd os bydd yn arbed arian ichi

Ni fyddwn yn argymell eich bod yn cael mesurydd dŵr oni bai eich bod yn sicr y byddwch yn arbed arian.

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, os oes gennych deulu bychan, neu os ydych yn byw mewn tŷ ac iddo Werth Ardrethol uchel, efallai y gallai fod yn fuddiol cael eich biliau wedi'u seilio ar y cyfaint gwirioneddol o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio yn hytrach nag ar y Gwerth Ardrethol.

Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell mesurydd dŵr Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr i gyfrifo ai mesurydd yw'r dewis gorau i chi yn www.ccwater.org.uk/watermetercalculator/.

Nid yw cael mesurydd yn eich eithrio rhag cyfyngiadau dros dro ar ddefnydd nad yw'n hanfodol (gwaharddiadau ar bibelli dyfrhau) i ddiogelu cyflenwadau hanfodol. Mae gwaharddiadau ar bibelli dyfrhau yn ymwneud â chwsmeriaid â mesurydd a heb fesurydd.

Gall cael mesurydd hefyd gael ei ddefnyddio i'ch galluogi i fanteisio ar rai o'n cynlluniau cymorth ariannol, ac felly hyd yn oed os oes gennych ddefnydd uwch na'r cyfartaledd o ddŵr, efallai y byddwch yn dal i elwa o gael gosod mesurydd. Bydd hyn yn amrywio, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Gellir canfod manylion llawn o'n hopsiynau o gymorth ariannol ar-lein yn https://www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/.

## Dylech gael mesurydd dŵr os ydych yn:

- Defnyddio taenellwr gerddi neu unrhyw ddyfais ddyfrhau awtomatig arall.
- Meddu ar bwll nofio neu bwll dŵr sydd â chapasiti o dros 10,000 litr sy'n ail-lenwi ei hun.

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

- Cwsmer busnes.

Nid oes yn rhaid i bibell ddyfrhau a ddelir yn y llaw heb daenellwr gael mesurydd. Fodd bynnag, fe gategoreiddir pibell ddyfrhau drydyllog fel dyfais daenellu ac felly mae'n ofynnol iddi gael mesurydd cyn y gellir ei defnyddio.

## Sut y caiff Gwerth Ardrethol ei gyfrifo

Y Gwerth Ardrethol yw'r mesur a ddefnyddir i gyfrifo maint y bil dŵr mewn eiddo heb fesurydd.

Nid yw Gwerth Ardrethol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r dŵr gwirioneddol a ddefnyddiwyd, gan mai amcangyfrif ydyw.

Penderfynwyd ar Werthoedd Ardrethol gan y llywodraeth rhwng 1973 a 1990.

Mae Gwerth Ardrethol yn cynnwys amryw o ffactorau, megis maint yr eiddo, yr ardal ac argaeledd gwasanaethau.

Nid yw'n bosibl mwyach canfod sut y crëwyd cyfrifiadau unigol. Rhewyd y Gwerthoedd Ardrethol hyn yn 1990, ac yn awr maent yn sefydlog ac ni ellir apelio yn eu herbyn. Os adeiladwyd tŷ ers 1990, dylai fod ganddo fesurydd dŵr.

Er enghraifft, os ydych yn byw ar eich pen eich hun mewn tŷ mawr, mae'n debygol iawn y byddech yn elwa o osod mesurydd gan y disgwyliech ddefnyddio llai na'r maint a amcangyfrifwyd o ddŵr, ac felly fe fyddai'n gostwng eich biliau.

Gellir canfod canllaw llawn yn egluro Gwerth Ardrethol ar-lein yn https://www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/help-with-understanding-your-bill/understanding-your-bill/billing-by-rateable-value/

## Lle y byddwn yn gosod eich mesurydd dŵr

Mae rheoliadau'r llywodraeth yn caniatáu inni geisio gosod y mesurydd mewn tri lleoliad:

1. Y tu allan i'ch eiddo, nesaf at y tap cau dŵr, wrth ymyl terfyn yr eiddo. Mae hyn fel arfer y tu mewn I'r blwch terfyn, a dyma'r opsiwn sydd orau gennym ni.
2. Y tu allan i'r eiddo, yn agos at wal yr eiddo.
3. Y tu mewn i'ch eiddo, gyda chyfleuster darllen â radio.

Os ydych yn anghytuno â lleoliad arfaethedig y mesurydd dŵr pan fydd ein contractwr mesuryddion yn cyrraedd, mae'n rhaid ichi dalu am y costau ychwanegol o osod, a achoswyd gan y lleoliad newydd. Caiff y costau ychwanegol eu cadarnhau gyda chi cyn y bydd unrhyw waith wedi'i ddechrau.

Os yw'ch eiddo'n fwy na 50 metr o'n prif bibell ddŵr, yna mae'n rhaid inni osod y mesurydd ar gychwyniad eich pibell gyflenwi. Mae hyn fel arfer ar derfyn y ffordd fawr.

Mae gennych yr hawl i apelio i Ofwat os ydych yn anfodlon â lle y caiff y mesurydd ei osod. Ewch i www.ofwat.gov.uk i gael manylion.

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

### Gosod mesurydd dŵr yn y blwch terfyn

Gosod y mesurydd y tu allan i'r cartref, yn y blwch terfyn, yw'r opsiwn sydd orau gennym ni.

Os oes gennych flwch terfyn hygyrch, fe fydd ein contractwr mesuryddion yn gosod mesurydd dŵr 'wedi'i sgriwio i mewn'.

Os nad oes yna flwch terfyn hygyrch neu os nad ydym yn gallu canfod y tap cau dŵr, fe allem drefnu ail ymweliad i dîm ddychwelyd ac adeiladu blwch terfyn hygyrch neu i ganfod y tap cau dŵr, ac wedyn gosod y mesurydd.

### Gosod mesurydd y tu mewn i'r cartref

Os nad yw'n bosibl gosod y mesurydd yn y man cyflenwi yn y blwch terfyn, fe geisiwn osod mesurydd yn fewnol.

Gwnawn ei osod mor agos â phosibl at y man y mae'r cyflenwad dŵr yn mynd i mewn i'ch eiddo.

Yn aml, mae hyn o dan eich sinc cegin ond fe all fod mewn ystafell ymolchi i lawr y grisiau neu mewn lleoliad arall.

Os nad oes yr un o'r tri dull yn bosibl, ni fyddwch yn gallu cael mesurydd dŵr.

## Gallwch ddychwelyd at filiau heb fesurydd

Os canfyddwch nad yw mesurydd dŵr yn iawn ar eich cyfer chi, fe allwch ail-newid i daliadau heb fesurydd.

Mae'n rhaid ichi gysylltu â'n tîm yn https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/ o fewn 24 mis ar ôl i'r mesurydd gael ei osod neu o fewn 30 niwrnod o'ch pedwerydd bil i adael inni wybod bod arnoch eisiau ail-newid i daliadau heb fesurydd.

Os gwnaethoch dalu am osod eich mesurydd cyn y 1af o Ebrill, 2001, fe allech ddychwelyd at daliadau heb fesurydd.

Gellir gwneud hyn os yw'r **holl** o'r canlynol yn berthnasol:

- Gofynnoch yn wreiddiol am y mesurydd dŵr a thalasoch am y gosod, yn dal i fyw yn yr eiddo, fe'ch enwir ar y cyfrif bilio ac rydych yn gofyn am ddychwelyd i Werth Ardrethol.
- Mae gan yr eiddo Werth Ardrethol dilys o'r 31ain o Fawrth, 1990.
- Defnyddir yr eiddo fel cartref.
- Ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r eiddo fyddai'n annilysu'r Gwerth Ardrethol, fel estyniad neu newid defnydd, ers i'r Gwerth Ardrethol gael ei bennu.
- Nid oes yna bwll nofio a dim dyfais neu daenellwyr dyfrhau awtomatig yn yr eiddo.

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

## Achosion pan na allwch ddychwelyd i daliadau heb fesurydd

Os yw'r eiddo'n fusnes, neu os ydym wedi gosod mesurydd o dan ein cynllun mesuryddion gorfodol, ni allwch ddychwelyd i daliadau heb fesurydd mewn unrhyw amgylchiad.

Os symudasoch i eiddo lle roedd yna eisoes fesurydd wedi'i osod, ni fyddwn yn gallu tynnu'r mesurydd i ffwrdd a'ch bilio ar daliadau heb fesurydd, ac felly sicrhewch, os gwelwch yn dda, eich bod yn gwirio hyn cyn prynu'ch eiddo.

## Y ni sydd piau'r mesurydd

Yn gyfreithiol, mae'r mesurydd dŵr yn ased sy'n perthyn i Hafren Trent. Ni chaniateir ei symud ac ni chaniateir rhoi cyfarwyddiadau i'w symud gennych mewn unrhyw amgylchiad.

Mae ymyrryd â'r mesurydd yn mynd yn groes i Adran 175 Deddf Diwydiant Dŵr 1991. Gall ymyrryd â, difrodi'n fwriadol neu dynnu'r mesurydd i ffwrdd fod yn drosedd.

Os cewch eich euogfarnu o wneud unrhyw un o'r pethau hyn, fe allech wynebu dirwy fawr.

Os ydych yn tynnu'r mesurydd i ffwrdd ac yn gwrthod ei ailosod, fe allwn osod mesurydd allanol yn eich eiddo. Os gosodwn y mesurydd hwn, fe fyddai hynny ar eich costau chi.

## Symud y mesurydd ar ôl gosod

Bydd arnoch angen cysylltu â ni yn https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/ os oes arnoch eisiau symud y mesurydd ar ôl iddo gael ei osod.

Byddwn yn trefnu bod ein contractwyr mesuryddion yn ymweld â'r eiddo ac yn cynnal arolwg.

Os penderfynwch fynd rhagoch a symud y mesurydd, yna fe godir tâl arnoch am y gost o'i symud, oni bai bod arnoch anghenion penodol neu angen cymorth.

Byddwn yn cadarnhau unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â symud y mesurydd cyn y dechreuir ar unrhyw waith.

Caiff y gost o symud ei bennu gan un o'n contractwyr wrth iddo wneud arolwg o'r eiddo.

Os yw'r mesurydd mewn lleoliad anniogel, yna fe wnawn ei symud yn ddi-dâl. Fodd bynnag, ni allwn symud mesurydd 50 metr neu fwy i ffwrdd o'r man gosod presennol.

## Cywirdeb mesuryddion dŵr

Cymeradwyir mesuryddion dŵr am gywirdeb gan y Swyddfa Diogelwch a Safonau Cynnyrch, yn ogystal â chan y gweithgynhyrchydd, cyn iddo adael y ffatri.

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

Bydd ein contractwyr mesuryddion yn dangos ichi sut i ddarllen y mesurydd ar ôl iddo gael ei osod.

**Gofyn am brawf mesurydd dŵr**

Gallwch ofyn am i fesurydd gael eu profi os ydych yn credu y gallai fod yn anghywir.

Caiff y mesurydd ei newid a'i anfon yn ôl at y gweithgynhyrchydd i'w brofi ar gyfarpar sydd wedi'i galibro'n arbennig gan gwmni mesur annibynnol i gadarnhau cywirdeb y mesurydd.

**Talu am y prawf**

Os cadarnheir fod y mesurydd yn anghywir, ni chodir tâl arnoch am y prawf.

Os yw'r gwirwyr annibynnol yn canfod bod y mesurydd hwnnw'n gywir, fe godir tâl arnoch am y prawf .

Mae profion yn amrywio yn ôl maint a math y mesurydd, ond fe fydd prawf ar fesurydd nodweddiadol yn costio £70 ynghyd â ThAW.

**Ad-daliadau a Thystysgrifau**

Os yw'r mesurydd wedi gor-gofnodi, fe wnawn eich ad-dalu â'r swm rydym yn ei amcangyfrif sydd wedi'i orgodi arnoch ar eich bil diweddaraf. Os nad yw wedi cofnodi'n ddigonol, ni wnawn hawlio dim yn ôl gennych.

Os profir fod y mesurydd yn gywir, yna fe wnawn dderbyn tystysgrif gan y profwyr, y gwnawn ei throsglwyddo i chi.

**Nid oes yr un mesurydd wedi gor-gofnodi**

Dengys cofnodion profion yn y blynyddoedd diwethaf nad oes yr un mesurydd wedi methu am fod yn anghywir drwy or-gofnodi.

Maent wedi bod oddi fewn i derfynau cywirdeb neu wedi methu am beidio â chofnodi'n ddigonol.

Weithiau, rydym yn penderfynu profi mesuryddion os credwn ei fod yn angenrheidiol; er enghraifft, os credwn fod y defnydd yn llai na ddisgwyliwyd.

Gwnawn dalu am y profion hyn ac fe wnawn eich hysbysu am unrhyw ganlyniad os nad yw'n gywir.

## Sut y gallwn eich cynorthwyo chi a'ch teulu

Deallwn y bydd arnoch chi neu'ch teulu weithiau efallai angen cymorth hirdymor.

Rydym yn gallu darparu cymorth wedi'i lunio'n bwrpasol ar eich cyfer chi a'ch aelwyd os ymunwch â'n Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth yn https://www.hdcymru.co.uk/get-in-touch/join-our-priority-services-register/?iid=psr:contact_us:tile/.

Mae hwn yn wasanaeth am ddim, ac mae'n golygu y gallwn ddysgu ychydig yn fwy amdanoch, ac fe fydd yn ein helpu ninnau i ddeall eich anghenion penodol.

ST Classification: OFFICIAL PERSONAL

Mae ein Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth ar gael i gynorthwyo pawb, p'un a ydych chi neu aelod o'ch teulu yn wynebu gwaeledd, pryderon ariannol, rhwystrau iaith neu waeledd corfforol/seicolegol.

Rydym ar gael i geisio darparu rhywfaint o gymorth i chi a'ch teulu yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau**

Gallwch gysylltu â'n tîm yn https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/ os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein polisi mesuryddion, fe fydd ein tîm yn fodlon iawn eich helpu. Gallwch hefyd ddarllen ein canllaw Materion Mesuryddion – Trwsio Unrhyw Ddiffygion yn https://www.hdcymru.co.uk/, sy'n egluro sut a pha bryd rydym yn gallu helpu â phroblemau yn ymweud â mesurydd dŵr.